**Vaughan Gething AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/02983/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

30 Medi 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb: P-05-842 – Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef *Cadernid Meddwl,* yn sgil ei ymchwiliad i'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn falch bod y Pwyllgor wedi cydnabod bod gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac rydym yn gweithio gyda'r Pwyllgor a rhanddeiliaid i weithredu'r argymhellion a wneir yn *Cadernid Meddwl.* I'r perwyl hwn, ar 7 Medi, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a finnau y byddem yn trefnu grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar y cyd i ystyried y dull gweithredu ysgol-gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol mewn ysgolion, gan fwrw ymlaen â'r argymhellion sy'n ymwneud ag addysg yn yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a gafodd ei lansio ym mis Chwefror 2015, ac a fydd yn rhedeg tan 2019. Mae'r rhaglen hon, sy'n cael ei harwain gan y GIG, yn gweithio i sicrhau bod y system bresennol ar gyfer ymateb i anghenion iechyd meddwl ac iechyd emosiynol yn gweithio'n fwy effeithiol ar draws pob sector, ac nid dim ond yng ngwasanaethau'r GIG.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu gweithgarwch yn ganolog i'r rhaglen. Rhoddir cyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu a chynllunio gwasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn y dyfodol, drwy ymgysylltu'n helaeth â nhw mewn modd sy'n canolbwyntio ar lesiant pob plentyn, ac nid dim ond y rhai sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Plant yng Nghymru, swyddfa'r Comisiynydd Plant, Amser i Newid Cymru, a Grŵp Cydweithredol Anghenion Uchel y trydydd sector.

Bydd y cynigion sy'n deillio o'r rhaglen yn cael eu profi'n barhaus wrth iddynt gael eu datblygu drwy rwydwaith plant a pobl ifanc y Comisiynydd, a Fforwm Plant yng Nghymru Cymru Ifanc. Mae'r olaf yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc gyfrannu'n uniongyrchol at faterion sy'n bwysig iddynt.

Hefyd, mae Cylchlythyrau'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael eu cynhyrchu'n rheolaidd a'u dosbarthu i amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc, a hefyd y sefydliadau partner sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, yn cael clywed am y syniadau a'r datblygiadau diweddaraf a'u bod yn gallu dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu cynigion. Mae'r rhaglen hefyd yn cydnabod pwysigrwydd rhoi adborth i'r plant a phobl ifanc sy'n cyfrannu eu sylwadau. Er mwyn darparu sicrwydd bod eu sylwadau a'u barn yn arwain at weithredu ymarferol a gwasanaethau gwell, mae'r rhaglen wedi datblygu adroddiad sy'n tynnu sylw at y camau a gymerir i ymateb i'r materion sy'n cael eu codi.

Yn gynharach eleni, cwrddais ag Ieuenctid Abertawe Bro Morgannwg, sef grŵp o bobl ifanc sy'n gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, er mwyn sicrhau bod eu barn a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn wrth gomisiynu gwasanaethau iechyd. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn, a hoffwn annog byrddau iechyd eraill i ystyried a ddylid rhoi trefniadau tebyg ar waith yn eu hardaloedd nhw.

Diolch ichi unwaith eto am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn. Gobeithio bod yr ymateb wedi bod o fudd ichi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services